Beth yw Sgan Esgyrn Isotop?

Mae sgan esgyrn isotop yn fath o sgan Meddygaeth Niwclear a ddefnyddir i ganfod newidiadau swyddogaethol yn eich ysgerbwd cyfan. Mae'r sgan yn cael ei gymryd gan gamera arbenigol, sef y Camera Gama, sy'n olrhain trywydd maint bach iawn o ymbelydredd a roddir yn y corff drwy bigiad.

Mae sgan esgyrn yn cynnwys cymryd lluniau o'r corff ar un adeg neu fwy, gan ddibynnu ar eich problem glinigol.

Bydd yr union brotocol yn cael ei egluro i chi ar ddiwrnod eich sgan. Fodd bynnag, mae'r weithdrefn safonol yn cynnwys cymryd lluniau dros gyfnod o oddeutu 45 munud, 2 i 4 awr ar ôl y pigiad.

Beth mae'r prawf yn ei gynnwys?

Yn fuan ar ôl i chi gyrraedd yr adran, byddwch chi'n derbyn pigiad yn eich gwythïen gyda maint bach o sylwedd ymbelydrol, fel arfer yn eich braich. Mae'r sylwedd yn casglu yn yr esgyrn, ond gan fod hyn yn cymryd peth amser i ddigwydd, bydd croeso i chi adael yr adran.

Bydd yn rhaid i chi ddod nôl 2 i 4 awr wedyn ar gyfer y sgan (gallwch chi fwyta ac yfed yn arferol wrth i chi aros). Bydd aelod o staff yn dweud wrthych chi yr union amser y bydd yn rhaid i chi ddychwelyd. Yn yr amser hwnnw, bydd llun o'r corff cyfan yn cael ei gymryd am oddeutu 30 munud.

Efallai bydd angen lluniau ychwanegol, a fydd yn cynnwys y camera'n symud o gwmpas y corff mewn cylch. Efallai gofynnir i chi godi'ch breichiau uwch eich pen y tro hwn (os yw'n bosibl). Hefyd, efallai gofynnir am ymchwiliadau pelydr-X.

Beth sy'n digwydd ar ôl y sgan?

Bydd technolegydd yn gwirio i sicrhau y cafwyd sgan boddhaol, ac ar ôl hynny, cewch chi adael. Gallwch chi yrru adref a pharhau â'ch gweithgareddau arferol.

Bydd eich sganiau'n cael eu hadrodd gan Radiolegydd (meddyg arbenigol), ac anfonir y canlyniadau yn ôl at y meddyg a ofynnodd am y sgan

Bydd canlyniadau'r sgan yn cael eu hesbonio i chi yn eich apwyntiad nesaf yn y Clinig Cleifion Allanol, neu yn y feddygfa os ydy eich Meddyg Teulu wedi eich atgyferio chi.

A fydd e'n brifo? Ydy e'n anghyfforddus?

Nac ydy, heblaw am y pigiad, sy'n debyg i brawf gwaed.

Nid yw'r sgan yn cynnwys symud drwy dwnel. Nid oes rhaid i chi ddadwisgo, ond bydd yn rhaid i chi dynnu gemwaith neu eitemau metel.

A oes unrhyw sgil-effeithiau?

Mae gweithdrefnau Meddygaeth Niwclear ymhlith y profion delweddu diagnostig mwyaf diogel. Mae'r swm o ymbelydredd a dderbynnir yn yr archwiliad hwn yn gyfwerth â llai na 2 flynedd o ymbelydredd cefndirol yn y DU.

Mae sgil-effeithiau oherwydd sylwedd y pigiad yn brin iawn. Mae'r sgil-effeithiau a all ddigwydd fel arfer yn ysgafn iawn.

Cyfarwyddiadau Pwysig:

1. Os na allwch chi ddod i'ch sgan, ffoniwch ni ar (01792) 285295 a gadewch i ni wybod.
2. Cwblhewch yr holiadur sydd wedi'i atodi, a dewch ag ef gyda chi ar ddiwrnod eich apwyntiad.
3. Ewch at dderbynfa'r adran Meddygaeth Niwclear ar y diwrnod a'r amser a roddir ar flaen y daflen hon. Mae map o'r ysbyty i'w weld ar gefn y daflen hon.
4. Parhewch i gymryd unrhyw feddyginiaeth a ragnodwyd i chi.
5. Os ydych chi'n feichiog, neu os ydych chi'n bwydo ar y fron, cysylltwch â'r adran.
6. Os ydych chi'n dioddef o anymataliaeth neu os ydych chi'n derbyn triniaeth dialysis, cysylltwch â'r adran.
7. Yfwch o leiaf 6 chwpan o ddiod y diwrnod ar ôl y pigiad. Gallwch chi yfed unrhyw fath o hylif a bwyta'n arferol. Gwagiwch yn aml.
8. Peidiwch â dod i'ch apwyntiad gyda phlant neu fenywod beichiog.
9. Peidiwch â rhoi samplau gwaed neu wrin dros y 24 awr nesaf.
10. Teithio: mae gan rai meysydd awyr, porthladdoedd a gorsafoedd trenau fonitorau ymbelydredd sensitif a allai gael eu hactifadu gennych chi ar ôl y sgan, felly dylech chi gario eich llythyr apwyntiad am 7 diwrnod.

Ysbyty Singleton

CYNLLUN SAFLE



Cyfarwyddiadau o draffordd yr M4

O unrhyw gyffordd rhwng 42 a 47, dilynwch arwyddion Canolfan Dinas Abertawe i ddechrau, ac yna dilynwch y cyfarwyddiadau ar gyfer y Gŵyr a'r Mwmbwls. Bydd arwyddion Ysbyty Singleton yn amlwg ger ffiniau'r ddinas. Mae Heol Sgeti ar yr A4216.



06/07

GIG CYMRU NHS WALES
Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe
Swansea Bay University Health Board

YSBYTY SINGLETON

MEDDYGAETH NIWCLEAR

Apwyntiad eich

Sgan Esgyrn Isotop

Darllenwch y daflen hon yn ofalus ac ewch i'r Adran Meddygaeth Niwclear ar gyfer yr apwyntiad isod

Enw

Manylion yr Apwyntiad

Dyddiad

Amser

Os na allwch chi ddod i'r apwyntiad hwn, neu os oes gennych unrhyw ymholiadau, ffoniwch (01792) **285295** os gwelwch yn dda.